



**Tyfu Canolbarth Cymru
Cyfarfod Partneriaeth - Cofnodion
Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion
Dydd Llun 28 Medi 2015, 2.00pm**


Mynychwyr


Y Cyngorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Barry Thomas, Arweinydd Cyngor Sir Powys
Y Cyngorydd Gareth Lloyd, Aelod Portffolio Adfywio
Y Cyngorydd Avril York, Aelod Portffolio, Adfywio a Chynllunio
Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-ganghellor, Prifysgol Aberystwyth
Dr Jane Davidson, Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant
Gareth Price, Cadeirydd, Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru
Arwyn Watkins, Cynrychiolydd Etholedig y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol
Paul Evans, Arweinydd Busnes Bwrdd Rhaglen Cymunedau Cryfach Powys
Jacqui Weatherburn, Coleg Ceredigion a Pharth Twf Lleol Dyffryn Teifi
Steve Doodson, Pennaeth Campysau Powys CNPYTC
Dr Sue Fish, Cadeirydd Cydweithrediaeth Iechyd Canolbarth Cymru
Jack Evershed, Cadeirydd Cydweithrediaeth Iechyd Canolbarth Cymru
Hazel Lloyd-Lubran, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)
Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru a Chadeirydd Siambr Fasnach
Canolbarth Cymru
Carl Cooper, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO)
Aled Jones, Swyddog Gweithredol Sirol Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) Brycheiniog a
Maesyfed
Mared Rand Jones, Swyddog Gweithredol Sirol Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
Ceredigion
Elid Morris, Rheolwr y Bartneriaeth Dysgu Ranbarthol
Huw Morgan, Cyngor Sir Ceredigion
Russell Hughes-Pickering, Cyngor Sir Ceredigion
Mike Shaw, Cyngor Sir Ceredigion
Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion
Eirlys Lloyd, Cyngor Sir Ceredigion
Paul Griffiths, Cyngor Sir Powys
Susan Bolter, Cyngor Sir Powys
Ann Watkins, Llywodraeth Cymru
John Jones, Llywodraeth Cymru
Lisa Cascarini, Cyngor Sir Powys (ysgrifennydd cofnodion)

1.	Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau Croesawodd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn bawb i'r cyfarfod. Ailbwysleisiodd y Cyngorydd ap Gwynn hyrwyddo'r ddwy Sir trwy Bartneriaeth Ranbarthol, gan nododd mai hyrwyddo datblygiad economaidd oedd ffocws y Bartneriaeth. Dywedodd y Cyngorydd Barry Thomas na ddylai'r ffaith fod y ddau Awdurdod yn cydweithio'n agos ar y mater yma olygu y dylai pobl ddehongli hyn fel arwydd y byddai'r ddau awdurdod yn uno yn y dyfodol. Roedd y ddau Awdurdod fel ei gilydd yn cadw ei hunaniaeth ei hunan ac roedd Powys wrthi'n weithredol yn ceisio perthynas weithio agosach â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.	
----	--	--

	<p>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth: Steve Cass, Grŵp NPTYC Y Cynghorydd Allun Williams, Cadeirydd Trac James Harrison, Cadeirydd Fforwm Economaidd Canolbarth Cymru Peter Howells, Undeb Amaethwyr Cymru Sarah Jowett, Cyngor Sir Powys Doug Hughes, Cadeirydd Parth Twf Lleol Y Drenewydd</p>	
2.	<p>Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2015 Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir o'r cyfarfod, a chynigiwyd y Cynghorydd Barry Thomas ein bod yn eu derbyn.</p> <p><u>Materion yn codi</u> Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.</p>	
3.	<p>Cylch Gorchwyl Rhoddodd Mike Shaw wybod i ni fod y Cylch Gorchwyl wedi newid, a bellach yn cynnwys y pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod fis Mehefin, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau, defnyddio'r gair "cydweithio" yn lle "lobïo" ac ychwanegu enwau aelodau newydd.</p> <p>Roedd paragraff 15 wedi'i newid i ganiatáu i ddirprwyon fynychu'r cyfarfod pan nad oedd yr aelodau'n gallu dod.</p> <p>Cytunodd y Bartneriaeth gyfan â'r cylch gorchwyl diwygiedig.</p>	
4.	<p>Profiad o'r 'Marches Local Enterprise Partnership' Roedd James Harrison wedi paratoi papurau am Bartneriaeth Fenter Leol y Gororau (<i>Marches LEP</i>) ond yn anffodus, nid oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd gwaeledd. Gofynnwyd i James ymchwilio i drefniadaeth y LEP, y modd roedd yn cael ei hariannu, beth oedd ei blaenoriaethau, a pha sefydliadau roedd hi'n eu cefnogi. Mae'r rhagamcaniad ar gyfer twf twristiaeth a ffermio yn fychan yn y Gororau, yn wahanol i Ganolbarth Cymru. Diolchwyd James am agor y drws a gosod y seiliau. Cytunwyd bod y gwaith yn werthfawr. Nodwyd bod y Bartneriaeth yn y Gororau'n fodlon siarad gyda Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.</p> <p>Diolchodd y Cynghorydd Avril York i James am ei waith, a thynnodd sylw at werth partneriaid sector preifat yn y Bartneriaeth. Awgrymwyd y dylai'r Bartneriaeth ganolbwyntio rhagor ar yr ardaloedd lle roedd potensial i ennill cyflogau uwch a thyfu cyfleoedd am swyddi. Creu amodau sy'n caniatáu i bobl ifanc aros yng Nghanolbarth Cymru a'i gwneud yn lle deniadol ar eu cyfer. Cydnabuwyd bod yr adroddiad yn berthnasol i Ganolbarth Cymru gan ei fod yn amlygu cyflwr aeddfed y byddai Canolbarth Cymru'n dymuno ei gyrraedd. Dywedodd y Dr Rhodri Llwyd Morgan ei bod yn hanfodol fod y neges yn cael ei fwydo'n ôl i'r Campws Arloesi i hyrwyddo ymchwil arloesol i gynhyrchion newydd.</p> <p>Bydd y Bartneriaeth yn edrych ymlaen at dderbyn cynllun gweithredu sy'n cynnwys eitemau, a lle mae amlygrwydd yn cael ei roi i'r economi lefel uchel. Mae'n ymgysylltu â'r Trydydd Sector wrth i'r Bartneriaeth sbarduno'r gwaith yma yn ei flaen a chynnwys mentrau cymdeithasol. Mae angen cydnabod effaith economaidd y sector gwirfoddol ar Ganolbarth Cymru. Iechyd a Gofal</p>	

	<p>Cymdeithasol yw'r pwnc llosg ar hyn o bryd, ac mae'n bwysig iawn i'r economi.</p> <p>Cynigodd y Dr Jane Davidson gyflwyno papur i'r cyfarfod nesaf ar waith Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant gyda'r Trydydd Sector. Mae'r Brifysgol yn gweithio ar draws y rhanbarth.</p> <p>Mae ymgysylltiad y sector preifat yn dwyn dimensiwn cwbl newydd i'r gwaith yma. Awgrymodd y Cynghorydd ap Gwynn y gellid gwahodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Highlands and Islands i fideo-gynadledda yn y cyfarfod nesaf a fyddai'n cael ei gynnal ym Mhowys.</p>	<p>Dr Jane Davidson</p> <p>Lisa Cascarini</p>
5.	<p>Asesiad o Gyflenwad a Galw</p> <p>Diolchodd Elid Morris i'r Bartneriaeth am ei gwahodd i roi cyflwyniad. Mae copi wedi'i atodi.</p> <p>Mae LIC wedi rhoi cyfle 7-wythnos i'r Bartneriaeth Ddysg Rhanbarthol (RLP) gwblhau Asesiad Cyflenwad a Galw. Dewisodd yr RLP ganolbwyntio'r cyflwyniad ar 3-4 sector blaenoriaeth i gwmpasu Rhanbarthau Bae Abertawe a Chanolbarth Cymru. Mae'r asesiad wedi'i seilio ar ddatblygiad economaidd ac mae'r holl benderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth. Mae'r RLP wedi cynnal adolygiadau ansoddol a meintiol er mwyn cwblhau hyn erbyn Dydd Mercher 30 Medi.</p> <p>Gofynnodd y Cynghorydd Avril York a oedd yr Ysgolion Uwchradd wedi'u cynnwys yn yr asesiad. Dywedodd Elid ei fod yn cynnwys ysgolion gyda chweched dosbarth, gan mai adolygiad ôl-16 ydoedd. Dywedodd Arwyn Watkins bod yr asesiad yn canolbwyntio ar ddysgu ar sail gwaith, ac ar y ffordd orau o wario'r cyllid. Roedd Jacqui Weatherburn yn teimlo bod yr RLP wedi cwmpasu maes eang mewn cyfnod byr iawn.</p> <p>Roedd y Cynghorydd ap Gwynn yn credu ei bod yn ffordd ragorol o weithio, a chymeradwyodd y canolbwyntio ar Ganolbarth Cymru, gan nad oedd yr ardal yr un fath ag Abertawe.</p>	 <p>September Presentation Growth</p>
6.	<p>Y Diweddaraf ar Drafnidiaeth Strategol</p> <p>Diolchodd Ann Elias i'r Bartneriaeth am y cyfle i rannu'r diweddaraf am y rhanbarth. Aeth Ann trwy'r papur a oedd wedi'i fewnblannu yn yr agenda.</p> <p>Nododd y Cadeirydd bod yna lawer i'w groesawu yn yr adroddiad ond bod teithio dwyrain/gorllewin yn dal yn destun cryn bryder. Awgrymodd y Cynghorydd ap Gwynn y gellid anfon llythyr at y Gweinidog gan y ddau Awdurdod am y pryderon hyn a'r angen am gysylltiadau addas. Mae Canolbarth Cymru'n fodlon â gwasanaethau ychwanegol ar y trenau, ond mae peidio â chael cysylltiad i Birmingham yn destun siom.</p> <p>Tynnodd y Dr Jane Davidson sylw at broblemau teithio yn Llanbedr-pont-Steffan. Nid yw'r Brifysgol yn gallu hyrwyddo'r gwasanaeth bysiau i fyfyrwyr. A ellid ystyried cludiant sy'n cael ei dywys gan y galw? Oes yna unrhyw fodelau neu gyfleoedd unigol y gellid eu defnyddio'n batrwm ar gyfer yr ardal gyfan? Oes yna gyfleoedd i weithio gyda'r Trydydd Sector er mwyn astudio hyn ymhellach? Tynnodd Huw Morgan sylw at wasanaeth 'T'. Mae hwn wedi darparu seilwaith gwerthfawr. Gallai CSC ystyried gwasanaethau o amgylch yr asgwrn cefn yma.</p>	<p>Swyddogion CSP a CSC i ddrafftio</p>

7.	<p>Y Diweddaraf ar Ymgysylltu Rhanbarthol - ariannu gan yr UE</p> <p>Croesawyd Eirlys i'r cyfarfod. Cydnabu Eirlys mai dyma'r tro cyntaf yr oedd y Bartneriaeth wedi gweld ei hadroddiad ynghylch ariannu rhanbarthol yr UE.</p> <p>Mae Canolbarth Cymru yn un o'r pedair ardal y bydd arian yn cael ei ddyrannu iddynt yng Nghymru. Mae Ceredigion yn gweithredu fel arweinydd rhanbarthol a buddiolwr arweiniol, ac roedd yn gymwys i dderbyn cyfran uwch o gymorth UE na Phowys. Gofynnwyd i'r Bartneriaeth gefnogi'r gweithrediadau hyn a chytuno ar drefniadau ar gyfer cefnogi gwaith rhanbarthol UE. Bydd staff ar gael i wneud y gwaith, gan gynnwys hwyluso ac ymgysylltu. Tua £199, 500 y flwyddyn yw'r gyllideb, ac nid yw hynny'n cynnwys rhai o'r costau unigryw, megis gwerthuso.</p> <p>The Partnership acknowledged Mid Wales requires this funding. Collaborative working will be required as the funding crosses county borders. There will be a focus on the needs of this Partnership.</p> <p>Derbyniodd y Bartneriaeth adroddiad ar weithgareddau Llywodraeth Cymru a fydd yn cael eu hariannu o gronfeydd Ewropeaidd; Safleoedd ac Eiddo a Chronfeydd Datblygu Eiddo (Blaenoriaeth 4.4, tri gweithgaredd) Roedd y Bartneriaeth yn croesawu ac yn cefnogi'r gweithgareddau arfaethedig hyn o eiddo Llywodraeth Cymru, gan gyfrannu sylwadau fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> <i>1. Er bod y gweithgareddau penodol sy'n cael eu trafod yn gyfyngedig i ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, croesawodd y Bartneriaeth yr ymrwymiad i gefnogi datrysiadau eiddo unigol yn Nwyrain Cymru a roddwyd yng nghyfarfod y swyddogion a hefyd yr ymrwymiad i ystyried ymhellach y dewisiadau ar gyfer cyflenwi safleoedd ac eiddo yn y rhan hon o Ganolbarth Cymru yn y dyfodol.</i> <i>2. Yn achos ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, nododd y Bartneriaeth fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi dynodi'r safleoedd blaenoriaeth cyntaf ar gyfer darparu <u>Safleoedd Cyflogaeth Strategol</u>, ac nad oedd y rhain yn rhanbarth Canolbarth Cymru .</i> <i>3. Gofynnodd y Bartneriaeth i anghenion cyflogaeth ardal Aberystwyth gael eu codi yn y trafodaethau oedd yn parhau. Aberystwyth yw'r prif ganolfan cyflogaeth yng ngorllewin Canolbarth Cymru a byddai sicrhau bod safle cyflogaeth ar gael yn gam allweddol ar gyfer h rhanbarth i gyd.</i> <i>4. Wrth ddatblygu'r gweithgaredd <u>Gronfa Seilwaith Eiddo</u>, gofynnodd y Bartneriaeth i Lywodraeth Cymru nodi ardaloedd blaenoriaeth y rhanbarth yn rhan WWV (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) y rhanbarth. Roedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd targedu Parth Twf Lleol Dyffryn Teifi, ac yn ailadrodd y ddadl dros ddynodi Aberystwyth yn lleoliad gwaith allweddol ar gyfer rhan orllewinol y rhanbarth.</i> <i>5. Croesawodd y Bartneriaeth y <u>Gronfa Eiddo ar gyfer Busnes</u> a fyddai'n caniatáu adnoddau a chyfleoedd ychwanegol i Lywodraeth Cymru allu ymateb i anghenion hysbys yr economi lleol.</i> <i>6. Yn achos Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, byddai'r Bartneriaeth am drafod ymhellach â Llywodraeth Cymru wrth i'r cynigion yma ddatblygu, i sicrhau bod y cynlluniau'n parhau i fod yn gydnaws ag economi'r rhanbarth ac yn diwallu ei anghenion.</i> <p>Er bod gan Geredigion ddyraniad uwch o gyllid UE na Phowys, gallai Parthau Twf Lleol ym Mhowys gael dyraniad arian, yn enwedig o ran datblygu safleoedd cyflogaeth.</p>	 <p>Regional Engagement Updat</p>
----	---	--

	Nodwyd bod Gweinidogion wedi cydnabod bod Canolbarth Cymru'n endid ar wahân.	
8.	<p>Agenda Sgiliau Canolbarth Cymru</p> <p>Rhoddodd y Cynghorydd ap Gwynn wybod bod Arweinydd a Phrif Weithredwyr y ddau Awdurdod yn teimlo bod angen agenda sgiliau penodol ar gyfer Canolbarth Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Huw Morris i drafod posibiliadau ac i edrych ar aildrefnu sgiliau. Yn dilyn y cyfarfod, ffoniodd y Cynghorydd ap Gwynn y Gweinidog, ac yna anfonodd llythyr yn cadarnhau cynnwys y sgwrs. Roedd y llythyr yn ymdrin â sut y gallai hyn weithio, a sut y gellid gwella pethau. Nid dderbyniwyd ateb ffurfiol hyd yma, ond pan fydd ateb o'r fath yn cyrraedd, bydd yn cael ei anfon yn syth ymlaen i'r Bartneriaeth.</p> <p>Dywedodd Arwyn Watkins eu bod yn adolygu'r sefyllfa, ond roedd yn teimlo o wrando ar y safbwyntiau a fynegwyd, bod angen ei seilwaith ei hun ar Ganolbarth Cymru ar gyfer agwedd sgiliau'r rhanbarth. Nid oedd y rhanbarth wedi ennill dim yn ôl o'r buddsoddiad y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Heriwyd y sefyllfa bresennol, oedd yn ymddangos ei fod yn canolbwyntio llawer ar Lanelli ac Abertawe.</p> <p>Roedd trafodaeth ynghylch y posibilrwydd o fod ag RLP ar wahân ar gyfer Canolbarth Cymru er mwyn adlewyrchu ein hanghenion yn well, a chytunwyd y gellid ymchwilio i hyn fel posibilrwydd yn y dyfodol, gan ddibynnu ar gynlluniau LIC i'r dyfodol.</p>	
9.	<p>Cynllun Gweithredu sy'n datblygu</p> <p>Esboniodd Mike Shaw fframwaith drafft. Mae copi wedi atodi i'r cofnodion. Dywedodd Mike ei fod wedi defnyddio'r penawdau a oedd yn LEP Y Gororau yn y ddogfen. Mae'r cyflwyniad yn darparu rhestr o'r holl bethau positif sy'n digwydd yng Nghanolbarth Cymru ar hyn o bryd, a rhestr eglur o gyflawniadau. Cynigodd Mike y dylai Gweithgor Traws-Sector y Bartneriaeth fwydo i mewn i'r Cynllun Gweithredu. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i'r Bartneriaeth gyfan chwarae ei rhan. Mae'n bwysig datblygu gweledigaeth ar gyfer Canolbarth Cymru a fyddai'n helpu'r bartneriaeth i gyflawni ei hamcanion ac yn defnyddio'r ffrydiau cyllid oedd ar gael.</p> <p>Gweithredu: the Partnership were invited to provide comments on the document and feedback to Mike.</p> <p>Gweithredu: Partnership members be invited to be part of the Cross Sector Group.</p>	 DRAFTactionplanG MWSEPT15ver1.doc PAWB PAWB
10.	<p>Unrhyw Fater arall</p> <p>A. Datganodd y Cyng Ellen ap Gwynn fod iddi fudd yn yr eitem ganlynol, ac ni chymerodd ran yn y trafodaethau na'r penderfyniad. Cadeiriodd y Cyng Barry Thomas y cyfarfod yn ystod yr eitem yma.</p> <p>Mae Ceredigion yn gallu defnyddio rhan o raglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a allai gynorthwyo peth datblygu twristiaeth o fewn y Sir. Rhan o Gyllid Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yw hyn. Mae Rheilffordd Cwm Rheidol yn Aberystwyth yn atyniad o fri ac mae ganddi raglen fuddsoddi uchelgeisiol i gynnwys datblygu amgueddfa ryngwladol ar y safle. Mae'r cynlluniau'n cynnwys ailadeiladu rhan o Orsaf hanesyddol Pont Llundain sydd yno. Mae'r</p>	

	<p>datblygiad yma wedi bod yn flaenoriaeth yng Ngheredigion ers peth amser, a gofynnwyd i'r Bartneriaeth gadarnhau'r flaenoriaeth yma. Cytunodd y Bartneriaeth y dylai'r fenter hon gael ei blaenoriaethu.</p> <p>B. Gofynnwyd i'r Bartneriaeth nodi bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu gan y Gweinidog Mrs Hart i edrych ar ynni adnewyddadwy a'r cyfraniad y gall hwn ei wneud i economïau Cymru wledig. Mae'n debyg nad oes modd allforio ynni adnewyddadwy yn rhwydd oherwydd cyfyngiadau'r grid a'r rhwydwaith. Gofynnodd y Bartneriaeth ymhle roedd y cyfleoedd hyn, yn enwedig o ystyried y byddai'r tariff cyflenwi trydan yn debygol o gael eu lleihau. Dywedodd Mike Shaw y gallai hyn fod yn gynllun cymunedol newid ynni. Mae cyllid ar gael i ardaloedd Powys a Cheredigion ond mae angen edrych yn fanylach i'r mater. Nododd y Bartneriaeth y wybodaeth yma.</p> <p>C. Hysbysodd Mike Shaw y Bartneriaeth bod y Prosiect Seilwaith Ffonau Symudol yn gwneud cynnydd araf dros ben. Dim ond 7 o'r mastiau ffôn symudol arfaethedig oedd wedi'u cwblhau ac roedd y prosiect yn dod i ben fis Mawrth 2016. Rhoddodd Arwyn Watkins wybod mai sicrhau safleoedd ar gyfer y mastiau oedd y rhwystr mwyaf. Nododd y Bartneriaeth y wybodaeth yma.</p>	
--	--	--

CADEIRYDD Y CYNGHORYDD ELLEN AP GWYNN

Dyddiad cyfarfod nesaf y Bartneriaeth Dydd Gwener 8 Ionawr 2016, 10.00am, Ystafell Bwyllgor A, Neuadd y Sir, Llandrindod